**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Ein cyf/Our ref: MA/RE/0757/22

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:
Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Anfonir copi at:
Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru
Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

1 Mawrth 2022

Annwyl Gyfeillion

Rwyf yn cyhoeddi heddiw fanylion Setliadau Refeniw a Chyfalaf Terfynol Llywodraeth Leol ar gyfer 2022-23 (y Setliad) i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, drwy Ddatganiad Cabinet Ysgrifenedig. Mae'r datganiad hwnnw wedi'i gynnwys er gwybodaeth ichi. Rwyf hefyd yn cyhoeddi dyraniadau cyllid craidd dangosol ar lefel Cymru ar gyfer 2023-24 a 2024-25.

Mae fy nghyhoeddiad yn cadarnhau fy mwriad i bennu cyllid refeniw craidd ar gyfer llywodraeth leol yn 2022-23 yn £5.1 biliwn. Golyga hyn, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, y bydd cynnydd o 9.4 y cant, ar sail tebyg am debyg o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol, yn y cyllid craidd cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol yn 2022-23.

Wrth baratoi'r Setliad terfynol, rwyf wedi ystyried yn ofalus yr ymatebion a gefais i'r ymgynghoriad ar y setliad dros dro, a ddaeth i ben ar 8 Chwefror. Ni nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad unrhyw faterion y dylid newid y dull gweithredu a ddefnyddir mewn perthynas â hwy ar gyfer y Setliad terfynol.

Heblaw am gynnydd bach o £96 mil i'r Grant Cynnal Refeniw dosbarthadwy o ganlyniad i addasiad technegol, dyrennais yr holl gyllid sydd ar gael i'r setliad dros dro i roi cymaint o sicrwydd cynnar ag y gallwn i'r awdurdodau. Nid oes unrhyw gyllid pellach ar gael gennyf ar hyn o bryd. Rwyf wedi penderfynu peidio â chynnwys lefel cyllid gwaelodol ar gyfer y Setliad terfynol.

Y dyraniadau cyllid refeniw craidd dangosol ar lefel Cymru ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yw £5.3 biliwn a £5.4 biliwn yn y drefn honno – sy'n cyfateb i gynnydd o £177 miliwn (3.5%) yn y flwyddyn gyntaf a £128 miliwn (2.4%) yn yr ail flwyddyn. Ffigurau dangosol yw'r rhain ac maent yn dibynnu ar ein hamcangyfrifon presennol o incwm ardrethi annomestig dros gyfnod y setliad amlflwyddyn, a'r cyllid a ddarparwyd i ni gan Lywodraeth y DU drwy adolygiad cynhwysfawr o wariant 2021.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

At hynny, rwy’n cyhoeddi gwybodaeth am y grantiau refeniw a chyfalaf a gynllunnir ar gyfer y tair blynedd ganlynol. Ar gyfer 2022-23, cyfanswm y rhain yw mwy na £1.1bn ar gyfer refeniw a mwy na £700m ar gyfer cyfalaf. Rydym yn darparu'r gwerthoedd grant dangosol hyn yn awr er mwyn i awdurdodau lleol allu cynllunio eu cyllidebau'n effeithlon. Mae’r arwyddion yn awgrymu y bydd cyllid refeniw penodol ar gyfer grantiau yn parhau i fod yn uwch na £1.1bn bob blwyddyn drwy gydol y Setliad amlflwyddyn hwn, ac y bydd grantiau cyfalaf yn fwy nag £700m bob blwyddyn.

Yn dilyn adolygiad o'n cyllidebau cyfalaf, bydd y cyllid cyfalaf cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol ar gyfer 2022-23 yn £150 miliwn. Bydd hyn yn cynyddu i £200 miliwn am y ddwy flynedd ganlynol, gan gynnwys £20 miliwn ym mhob blwyddyn i alluogi awdurdodau i ymateb i'n blaenoriaeth ar y cyd o ddatgarboneiddio. Hoffwn ystyried, drwy'r Cyngor Partneriaeth a'r Panel Strategaeth Datgarboneiddio, beth yw’r ffordd orau o ddefnyddio’r cyllid hwn.

Mae'r *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol* terfynol a’r tablau ychwanegol sy'n cynnwys manylion y Setliad terfynol fesul awdurdod unigol hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Atgoffir awdurdodau lleol o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a hefyd y dyletswyddau cydraddoldeb penodol lle y maent yn berthnasol. Dylid asesu effaith opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Mae angen i awdurdodau hefyd ystyried eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau ar gyfer 2022-23.

Mae'r Setliad terfynol hwn yn rhoi wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gynllunio eich cyllidebau a'ch gwasanaethau ar gyfer 2022-23 fel rhan o'ch cynlluniau ariannol tymor canolig.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu mewn modd cadarnhaol â llywodraeth leol ar bob mater sy'n gysylltiedig â chyllid drwy'r Is-grŵp Cyllid.

Bydd y Llywodraeth yn awr yn mynd ati i osod Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2022-23 i fod yn destun dadl yn y Senedd ar 8 Mawrth 2022.

Yn gywir

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government